# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd ELP Caparros**

**Ward: Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar **30 Mai 2024**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

| |
|---|
| **<u>Y Rôl a Chyfrifoldebau</u>**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 51 o ymholiadau etholwyr/tocynnau 'Rhoi Gwybod' yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.<br><br>Gellir cael mwy o wybodaeth am fy ngwaith ar is-bwyllgorau - Amlosgfa Llangrallo, Panel Apeliadau a Chraffu, drwy ddilyn y ddolen hon:<br><br><u>Y Cynghorydd ELP Caparros</u> |
| **<u>Gweithgareddau Etholaethol</u>**<br><br>Mae trigolion wedi codi llawer o faterion pwysig ar amrywiaeth o bynciau.<br><br>Mae'r rhai mwyaf cyffredin yn ymwneud â phriffyrdd a mannau gwyrdd. Mae wedi bod yn braf gweld llawer o'n materion yn cael eu datrys er gwaethaf y sefyllfa ariannol anodd sy'n ein hwynebu. Er bod hyn wedi golygu bod problemau'n cymryd mwy o amser i'w datrys nag y byddem yn gobeithio, rydym yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth dynnu sylw at ble mae angen gwaith.<br><br>Mae ymrwymiadau maniffesto ar brydau ysgol am ddim wedi cael derbyniad da wrth i'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen fynd rhagddo ac rydym wedi gweld ein rhaglen adnewyddu parciau chwarae yn dechrau. |

Rwy'n gobeithio y bydd ein preswylwyr iau yn mwynhau'r buddsoddiad hwn y mae mawr ei angen ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Er y gall yr amser mae'n ei gymryd i gynlluniau ddwyn ffrwyth fod yn rhwystredig, rwy'n hyderus y bydd preswylwyr yn gallu mwynhau gwelliannau parhaus i fannau gwyrdd yn ein ward yn y flwyddyn nesaf.

Hoffwn ddiolch i'n staff a'n swyddogion gweithgar yn CBSP am eu hymdrechion a'u cymorth y llynedd.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Mae nifer o goed wedi'u cwympo oherwydd clefyd coed ynn yn ein ward ac mae'r gwaith hwn yn parhau pan nodir ardaloedd o bryder.

Yn y cyngor, rwyf wedi codi materion lle'r oedd trigolion yn pryderu na chafodd pobl eu hysbysu a'u bod wedi'u siomi gyda'r cyflwr y gadawyd safle lleol ynddo. Mae hyn wedi arwain at gyfathrebu llawer gwell ar brosiectau dilynol yn ein hardal a chynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i unioni'r materion a godwyd gan drigolion.

Byddaf yn parhau i bwyso am gynnal ein ward i'r safonau uchel y mae preswylwyr yn eu haeddu.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Yn ogystal â'm gwaith yn CBSP, roeddwn yn ffodus i gael fy ethol hefyd i Gynghorau Cymuned Bracla a Llangrallo.

Mae'n wych gweithio gyda'n cynghorwyr cymuned, swyddogion a phreswylwyr sydd i gyd yn angerddol am faterion lleol ac sy'n gweithio'n galed iawn i wneud hwn yn lle gwell i fyw.

**Y Cynghorydd: Eugene Caparros** **Dyddiad: 25.06.24**